# Camau Gweithredu Cyf

Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Cymru
Wales **Biodiversity** Partnership

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 3 Mawrth 2023 **Lleoliad:** MS Teams |
| **Amser y cyfarfod:** | 10.00 – 12.45 |
| **Yn bresennol:** | **LIC**: Leasa Fielding (Cadeirydd), Alison Smith, , **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**: Michaela Scrivin (ysgrifenyddiaeth) **Arall:** Anna Holmes (Amgueddfa Cymru), Beverley Lewis (APCBB), Chloe Powell-Jennings (CNC), Colin Russell (Cynrychiolydd LERC), Dan Forman (Prifysgol Abertawe), David Jermyn (APCBB), Holly Peek (CNC), Iain Henderson (APHA), Jennie Jones (CNC), Jess Minett (WaREN), Kirsty Brown (NWWT), Niall Moore (GBNNSS), Theresa Kudelska (CNC), Tomos Jones (WaREN) |
| **Ymddiheuriadau:** | Chloe White (Dŵr Cymru), Dawn Thomas (NWWT), Debbie Murphy (CEFAS), Gemma Williams (Dŵr Cymru), Katie Havard-Smith (Prifysgol Caerdydd), Phil Horton (RYA), Phil Stone (Canŵio Cymru), Simon Roberts (RSPB), Tom Warren (LIC) |


Dull Seland Newydd o reoli rhywogaethau estron goresgynnol
Arolygiaeth NNSI
Diweddariad WaREN
Pecyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol Morol
Diweddariadau Partneriaid
Unrhyw Fater Arall


## TROSOLWG O GAMAU GWEITHREDU

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Amserlen | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| **Dull Seland Newydd o reoli rhywogaethau estron goresgynnol** 1. Dim camau gweithredu yn codi. | | | |
| **Arolygiaeth NNSI** 2. Dim camau gweithredu yn codi. | | | |
| **Diweddariad WaREN** 3. Dim camau gweithredu yn codi. | | | |

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Amserlen | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| **Pecyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol Morol**<br>4. Dim camau gweithredu yn codi. | | | |
| **Diweddariadau partneriaid**<br>5. Unrhyw un nad oedd wedi llwyddo i anfon diweddariad partner at Michaela cyn y cyfarfod, anfonwch un erbyn 22 Mawrth | PAWB | | |
| **Unrhyw Fater Arall / Camau Nesaf**<br>6. Pawb i anfon cynlluniau Wythnos Rhywogaethau Estron Goresgynnol at Tom Warren.<br>7. Michaela i drefnu'r cyfarfod nesaf ar gyfer hydref 2023. | Tom Warren<br><br>Michaela | | |

## PWYNTIAU A CHAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Croesawodd Leasa Fielding bawb i'r cyfarfod, gan nodi ymddiheuriadau. Adolygwyd y rhestr o gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

**Rhestr o gamau gweithredu o gyfarfod mis Tachwedd 2022**

1. Michaela i drefnu taith maes i'r canolbarth ar gyfer mis Mehefin 2023. **Yn parhau, angen awgrym o leoliad.**
2. Michaela i ddosbarthu'r holl gyflwyniadau ar ôl y cyfarfod. **Wedi'i wneud**
3. Michaela i anfon gwahoddiad calendr ar gyfer 8 Mawrth 2023. **Wedi'i wneud**

## Dull Seland Newydd o reoli rhywogaethau estron goresgynnol

Rhoddodd Niall Moore o Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr drosolwg o'r gwersi a ddysgwyd o'i daith ddiweddar i Seland Newydd, taith a ariannwyd gan LIFE ac a wnaed fel rhan o'r Grŵp Llywio Bioddiogelwch. Gyda 1,000 o ynysoedd ar y môr a chyfran sylweddol o dir yn eiddo i'r goron, mae gwersi i'w dysgu am fioddiogelwch mewn gwledydd sy'n ynysoedd.

- Gorsafoedd glanhau cistiau wedi'u sefydlu ond heb eu gorfodi
- Cŵn synhwyro cyffuriau yn gwirio bagiau
- Ar gyfer ynysoedd sydd â'r rheolaethau mwyaf llym, mae'r holl nwyddau morgludiant yn cael eu storio cyn eu morgludo a'u gwirio

Y prif rannau o'r llywodraeth yw Gweinyddiaeth y Diwydiannau Cynradd (mae Biosecurity NZ yn rhan o hyn), yr Adran Gadwraeth ac 16 cyngor rhanbarthol. Deddfwriaeth lym iawn: Deddf Bioddiogelwch 1993 a sefydlodd Biosecurity NZ, a Deddf HSNO sy'n ymdrin ag organebau newydd. Adnoddau'n costio tua £750m y flwyddyn, gwyliadwriaeth £3.4m y flwyddyn (tua 28 gwaith yn fwy na gwariant y DU, 360 gwaith yn fwy o wariant na gwariant y pen yn y DU). Rheolaeth LT £75m, Ymateb cyflym 20 gwaith yn fwy na gwariant y DU.

- NZ yn rhydd o ysglyfaethwyr - Anelu at ddileu 7 rhywogaeth yn gyfan gwbl erbyn 2050 – posym, carlwm, gwenci, ffuret, tri math o lygod mawr. Yn y cyfnod 'arloesi' ar hyn o bryd.
- Mae conwydd gwyllt yn dianc o ffermydd/lleiniau cysgodi, tua 2 filiwn hectar wedi'u meddiannu. Dim cymaint o ffocws ar gyfathrebu / camau gweithredu ynghylch y mater hwn

**Pwyntiau da**:
- Canolbwyntio ar gamau gweithredu – ar y ffin, ymatebion cyflym, dileu
- Llawer mwy o adnoddau
- Bioddiogelwch yn integredig iawn
- Canolbwyntio ar atal / ymateb yn gyflym
- Rheolaeth tymor hir yn strategol iawn ar gyfer anifeiliaid (mamaliaid)

**Pwyntiau gwael**
- Rheolaeth tymor hir ddim yn strategol ar gyfer planhigion, yn enwedig i'r rhai sy'n fygythiadau amgylcheddol
- Mae cynghorau rhanbarthol yn aml yn gweithio mewn ffyrdd digyswllt

**Gwersi ar gyfer Prydain Fawr/y DU**
- Mae angen i ni weithredu mwy, yn enwedig ar atal ac ymateb yn gyflym
- Angen mesur y bygythiad amgylcheddol yn well
- Gwell prosesau canfod – gwneud penderfyniadau a chofnodi – camau i waredu

## Arolygiaeth NNSI

Rhoddodd Iain Henderson o'r Arolygiaeth Rhywogaethau Estron ddiweddariad ar eu gwaith. O fis Ebrill 2023, bydd 10 arolygydd yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae pob arolygydd yn gyffredinolwr, ond gall gael cymorth arbenigol yn ôl yr angen. Mae'r Arolygiaeth yn
- gorfodi deddfwriaeth berthnasol
- addysgu rhanddeiliaid ar y risgiau a achosir gan rywogaethau estron a'u cyfrifoldebau i atal rhyddhau a dianc
- ymchwilio i dorri rheolau a chefnogi asiantaethau eraill gan gynnwys yr heddlu lleol, Uned Genedlaethol Troseddau Bywyd Gwyllt a CNC

**Llwybrau posibl**
- Ar y ffin - cychod, genweirwyr, cynwysyddion / halogyddion
- Digwyddiadau – ffeiriau masnach, digwyddiadau genweirio, digwyddiadau cychod
- Ar ôl croesi'r ffin
  - Perchnogion anifeiliaid anwes egsotig, canolfannau achub anifeiliaid, sŵau, canolfannau garddio a phlanhigfeydd
  - Ffermydd glöynnod byw, hebogyddiaeth, adar dŵr egsotig
  - Gwerthiannau ar-lein, rhyddhau yn fwriadol

**Pwerau cyfreithiol yng Nghymru**
- Awdurdodir fel Swyddogion Gorfodi o dan Orchymyn IAS
- Yn cynnwys 66 rhywogaeth o bryder arbennig yn unig

- Pŵer i atafaelu samplau a mewnforion o rywogaethau rhestredig, pŵer i fynd i mewn i eiddo (ond nid annedd breifat), ond mae angen 'sail resymol dros gredu' bod trosedd yn cael ei chyflawni

**Gorfodi deddfwriaeth**

- Y broblem fwyaf yw anwybodaeth o'r gyfraith
- Y cam cyntaf yw hysbysu cyswllt o rwymedigaethau cyfreithiol, gall hyn gynnwys atafaelu planhigion / anifeiliaid.
- Cynghorir sŵau a chanolfannau achub anifeiliaid am y camau sydd eu hangen i gael trwydded
- Mae canolfannau achub anifeiliaid yn faes annelwig ar hyn o bryd ar gyfer rhywogaethau nad ydynt yn eang megis y racŵn – gallant ddal anifeiliaid sydd wedi'u hildio yn ddiogel ond ni allant eu symud / bridio / rhyddhau

**Achub ac adfer bywyd gwyllt**

- Gall yr Arolygiaeth gysylltu a rhybuddio unigolion / sefydliadau yr amheuir eu bod yn rhyddhau anifeiliaid heb drwydded neu'n bwriadu gwneud hynny
- Cyswllt agos â CNC
- Gall unrhyw un sy'n torri rheolau yn barhaus gael ei atgyfeirio i'r heddlu / Gwasanaethau Ymchwilio Defra ar gyfer ymchwiliad / erlyniad

Mae mandad cyfreithiol clir yn erbyn rhyddhau rhywogaethau nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU, ond mae eithriadau (e.e. hebogyddiaeth) a gall trwydded gael ei chyhoeddi gan CNC i wneud yr holl bethau hyn yn dibynnu ar rinweddau'r achos (e.e. dal a rhyddhau cacwn Asia fel y gallant ddod o hyd i'r nyth a'i ddinistrio).

Trafodaeth ynghylch labelu planhigion yn y ganolfan arddio – mater safonau masnach, ond mae modd atafaelu planhigion p'un a ydynt wedi'u labelu ai peidio.

## Prosiect WaREN: Diweddariad Cam 2

Rhoddodd Tomos Jones ddiweddariad ar INNS Mapper, strategaeth bioddiogelwch Cymru, cylchlythyr WaREN

Mae **INNS Mapper** yn lansio eleni, yn cynnwys cronfa ddata cofnodion digwyddiadau ac offeryn adrodd camau gweithredu rheoli integredig. Prosiect partneriaeth gyda buddsoddiad gan nifer o sefydliadau ledled Prydain. Bwriad i ddechrau profion beta yn fuan.

Nod **strategaeth bioddiogelwch Cymru** yw cyflawni dull rhagweithiol o fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru drwy wella'r ddealltwriaeth o fioddiogelwch ledled Cymru a'r defnydd o gamau bioddiogelwch ledled Cymru. Diogelu prif fecanweithiau Siarter Natur Nawr i gyflawni hyn.

Mae **cylchlythyr WaREN** yn cael ei ddosbarthu'n rheolaidd, cysylltwch â Jess os oes gennych unrhyw gynnwys ar gyfer materion sydd ar ddod.

Mae'r ymgyrch **Ymledwyr Ecosystem** yn dal i anelu at godi ymwybyddiaeth a bydd yn cael ei redeg eto ar raddfa lai eleni. Cadarnhawyd cyllid WaREN tan ddiwedd mis

Mehefin, felly bydd yn gallu bod yn rhan o Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol ym mis Mai.

Mae Pecyn Cymorth Rhywogaethau Goresgynnol **grŵp gweithredu lleol** bellach wedi'i argraffu ac mae fersiwn Saesneg ar gael, bydd fersiwn Gymraeg ar gael yn fuan. Bydd PDFs ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein. Mae hyfforddiant LAG hefyd wedi bod yn mynd rhagddo ar hyfforddiant chwistrellu plaladdwyr, technegau rheoli peiriannau torri gwrych a bioddiogelwch. Cynhaliwyd gweithdai LAG hefyd yn y Gogledd a'r De. Angen help gyda'r arolwg LAG – dosbarthwch i'ch rhwydwaith lleol am fwy o ymatebion.

**Prosiectau newydd:** Garden Escapers (cael help garddwyr i atal goresgyniadau yn y dyfodol), a chofnodi effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol drwy wyddoniaeth dinasyddion. Mae'r ddau yn cael eu rhedeg gyda Phrifysgol Coventry.

Trafodaeth ynghylch 'ailddyfeisio'r olwyn' ar gyfer 'top trumps' a phecyn cymorth – mae cynnwys wedi'i ailgylchu o'r adnoddau presennol a dolenni i'r canllawiau arfer gorau cyfredol. Casglu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na dyblygu ymdrechion.

Trafodaeth ynghylch cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf - bu cais diweddar am gyllid yn aflwyddiannus, felly y dyddiad gorffen presennol ar gyfer prosiect WaREN yw 31 Mawrth. Chwilio am ffyrdd amgen ar gyfer ffrydiau ariannu. Cyfle am weithdy LAG yn y Canolbarth? Mae angen poblogaeth i gefnogi.

## Pecyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol Morol

Dangosodd Anna Holmes o Amgueddfa Cymru becyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol Morol. Ar gael am ddim ar gyfer gweithdai, mae'n cynnwys 34 o rywogaethau estron goresgynnol e.e. chwistrellau môr, algâu ac ati. Rhai wedi'u sychu, eraill wedi'u piclo ar gyfer eu trin ac ati. Am ragor o wybodaeth neu i gael benthyg y pecyn, cysylltwch ag Anna Holmes Anna.Holmes@museumwales.ac.uk

## Diweddariadau Partneriaid

Diweddariadau ysgrifenedig wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod, a byddant yn cael eu dosbarthu eto gyda'r cofnodion hyn.

**Camau Gweithredu**: Unrhyw un nad oedd wedi llwyddo i anfon diweddariad partner at Michaela cyn y cyfarfod, anfonwch un erbyn 22 Mawrth a gellir cynnwys hyn gyda'r cofnodion pan gânt eu dosbarthu.

## Unrhyw Fater Arall

- Wythnos Rhywogaethau Estron Goresgynnol 15-21 Mai 2023, anfonwch fanylion unrhyw ddigwyddiadau at Tom Warren Tom.Warren@llyw.cymru
- Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei drefnu ar gyfer mis Hydref 2023.

**Cam Gweithredu**: Pawb i anfon cynlluniau Wythnos Rhywogaethau Estron Goresgynnol at Tom Warren. Michaela i drefnu'r cyfarfod nesaf ar gyfer hydref 2023.